

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 16eg Chwefror 2022 gan gychwyn am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **111. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU**

Adroddodd y Maer bod brawd y Cynghorydd Ms V. Roberts wedi marw a gofynnodd i'r cyfarfod am gyfnod o dawelwch fel arwydd o barch i'r Cynghorydd Roberts a'i theulu.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ms V. Roberts a Mrs M. Walker.

#### **112. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod Arbennig - 19eg Ionawr 2022 - Rhifau Cofnod 92-95  
y Cyngor

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Y Cyngor - 19eg Ionawr 2022 - Rhifau Cofnod 96-110

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Ionawr 2022 - Rhifau Cofnod 43-46

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid - 2il Chwefror 2022 - Rhifau Cofnod 69-78  
a Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

### 113. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf a'i phresenoldeb yng nghyfarfod Cyngor Ysgol Christchurch, lle cafodd ei gwahodd i siarad am rol y Maer a'r Cyngor Tref.

Dywedodd y Maer iddi fwynhau'r cyfarfod yn fawr iawn a gobeithiai y byddai rhai o'r plant a oedd hyn bresennol yn hystyried dod yn gynghorwyr yn y dyfodol.

### 114. AWDURDODI

#### TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (26ain Ionawr – 8fed Chwefror 2022)*

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1336	ICO	35.00	Ffi flynyddol 2022
1337	Gunsmoke Communications	750.00	Dylunio a phrawfddarllen Rhodio'r Rhyl
1338	Eusen Maer y Rhyl	60.00	Tocynnau cinio elusen x2
1339	Y Cyngw D. L. King	433.33	Lwfans y Maer 21/22 – taliad 3 o 3
1340	Y Cyngw J. L. McAlpine	133.32	Lwfans y Dirprwy Faer 21/22 – taliad 3 o 3
1341	Y Cyngw D. L. King	166.66	Lwfans Uwch Aelod 21/22 – taliad 3 o 3
1342	Y Cyngw J. L. McAlpine	166.66	Lwfans Uwch Aelod 21/22 – taliad 3 o 3
1343	Proarb Ltd	1,740.00	Coeden Nadolig 2021
1344	Cyngor Sir Ddinbych	13,000.00	Cyfraniad tuaf at gribin traeth
1345	Delwedd Ltd	755.93	Cynnal a lletya gwefan
1346	Canda Copying Ltd	259.32	Rhentu llungopiwr
1347	Canda Copying Ltd	82.21	Taliadau copiau lliw
1348	Lawnsience	40.00	Trin lawnt y Gerddi Coffa
1349	Barry Hamilton	245.00	Ffotograffau o'r Maer
1350	JDH Business Services Ltd	432.00	Ffi archwilio Interim 21/22
1351	Sioned Graham-Cameron	268.50	Gwasanaethau cyfieithu

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1352	Scottish Power	428.78	Trydan ar gyfer goleuadau
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£18,996.71</b>	

**Taliadau Argyfwng a Cherdyn:** Dim.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**115. EITEM AELOD: COFNOD DIGIDOL O'R CYNGOR TREF A'R RHYL**

Gpfynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i greu cofnod digidol o weithgareddau'r Cyngor Tref a'r newidiadau yn y Rhyl dros yr ugain mlynedd ddiwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield ei bod yn ddiweddar wedi mynd gyda'r Maer i ddigwyddiad yn adeilad Costigans ac wedi cyfarfod entrepreneur ifanc a oedd yn ffotograffydd digidol a ffilmwr, ac a allai helpu?

Pe byddai'r aelodau eisiau cefnogi hyn, yna byddem angen gweledigaeth glir o'r hyn yr hoffem ei gofnodi a'i gynnwys, ac y gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Donesig a Chymdeithasol ei ystyried?

Soniodd Clerc y Dref am syniad a oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) sef capsiwl amser digidol yn gysylltiedig â Jiwbilf y Frenhines, a oedd yn rhannu amcanion tebyg.

Ar olpeth trafodaeth, cytunwyd y gellid mabwysiadu dull gonest gan gynnwys rhai penderfyniadau a phrsiectau mwy dadleuol a ymgwymerwyd dros yr ugain mlynedd ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD** bod y syniad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor CSG ynghyd â'r fenter capsiwl amser.

**116. EITEM AELOD: TRWYDDED BARCIO I'R MAER**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i brynu trwydded barcio i'r Maer ei defnyddio wrth ymgymryd â dyletswyddau swyddogol.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield, ar ôl mynd gyda'r Maer i ddigwyddiad yn ddiweddar, bod angen i'r Maer gerdded cyn bellter o'r car i'r lleoliad, ac nad oedd hyn yn ddelfrydol o safbwynt diogelwch personol.

Teimlai Clerc y Dref nad trwydded oedd yr ateb efallai, gan eu bod ond yn berthnasol i feysydd parcio, a fyddai'n gadael y Maer i gerdded o'r maes parcio i'r lleoliad. Yn hytrach, awgrymodd gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i ofyn os gellid arddangos rhywbeth yng nghar y Maer, wedi ei barcio'n gyfreithlon, sy'n dderbyniol i wardeniaid parcio.

**PENDEFYNWYD** bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i holi ynglŷn â chael ateb ac adrodd yn ôl.

**117. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: .....16.03.2021.....